



Gwasanaeth Carchardai a
Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation
Service in Wales

Cynllun Iaith Gymraeg GCPHEM 2020-2023

HMPPS Welsh Language Scheme 2020-2023



**Cynllun Iaith
Gymraeg
Gwasanaeth
Carchardai a
Phrawf EM
2020-2023**

**HM Prison and
Probation Service
Welsh Language
Scheme
2020-2023**

Cynnwys:

1. Rhagarweiniad
 2. Gwerthuso a'r Dadansoddiad o Gydraddoldeb
 3. 'Cymraeg yn y Carchar' - Adroddiad y Comisiynydd 2018
 4. Rhoi'r Cynllun ar Waith
 5. Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru
 6. Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg yn Lloegr
 7. Hyfforddi a Pharatoi Staff
 8. Cynllun Gweithredu
 9. Monitro ac Adolygu
 10. Gweithio gyda Rhanddeiliaid
 11. Hyrwyddo'r Cynllun
 12. Strwythurau Adrodd ac Ymgynghori
 13. Ymholiadau a Chwynion
- ATODIAD A: Canllaw Cyfieithu**
- ATODIAD B : Argymhellion - 'Cymraeg yn y Carchar'**

1. Rhagarweiniad

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yma i atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr trwy newid bywydau. Rydym yn gweithio'n gyda'n partneriaid i gyflawni'r dedfrydau a roddir gan y llysoedd, un ai yn y ddalfa neu yn y gymuned. Rydym yn gweithio i leihau aildroseddu trwy adsefydlu pobl dan ein gofal, yn cynnwys trwy addysg a chyflogaeth.

O fewn Cymru a Lloegr, rydym yn gyfrifol am:

- reoli gwasanaethau carchardai a gwasanaethau prawf
- gwasanaethau adsefydlu ar gyfer pobl dan ein gofal sy'n gadael y carchar
- sicrhau bod cymorth ar gael i atal pobl rhag aildroseddu
- rheoli contractau carchardai a gwasanaethau sector preifat fel:

Contents:

1. Introduction
 2. Evaluation and Equality Analysis
 3. 'The Welsh Language in Prisons' – the Commissioner's Report 2018
 4. Applying the Scheme
 5. Promoting the use of Welsh language in Wales
 6. Promoting the use of Welsh language in England
 7. Equipping Staff
 8. Action Plan
 9. Monitoring & Review
 10. Working with Stakeholders
 11. Promoting the Scheme
 12. Reporting Structures & Consultation
 13. Enquiries & Complaints
- ANNEX A: Translation Guide**
- ANNEX B: Recommendations – The Welsh Language in Prisons**

1. Introduction

Her Majesty's Prison and Probation Service (HMPPS) is here to prevent victims by changing lives. We work with our partners to carry out the sentences given by the courts, either in custody or the community. We work to reduce reoffending by rehabilitating the people in our care, including through education and employment.

Within England and Wales, we are responsible for:

- running prison and probation services
- rehabilitation services for people in our care leaving prison
- making sure support is available to stop people reoffending
- contract managing private sector prisons and services such as:
 - the prisoner escort service
 - electronic tagging.

- y gwasanaeth hebrwng carcharorion
- tagio electronig.

Rydym yn rheoli carchardai sector cyhoeddus, y contract ar gyfer carchardai preifat ac yn goruchwylio'r broses o ddarparu gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys darparu cwmnïoedd adsefydlu cymunedol.

Ar hyn o bryd mae HMPPS yn gyfrifol am oddeutu 49,883¹ o staff (cyfwerth â llawn amser), 83,327² o garcharorion (79,514 gwrywaidd, 3,813 benywaidd) a 255,264³ o droseddwyr yn y gymuned.

Yn unol â Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn parhau i fabwysiadu'r egwyddor ganlynol - wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyflawnder yng Nghymru, bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Byddwn yn parhau gyda'n nod o ddarparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel ac, yn unol â gofynion Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn mabwysiadu'r arfer gorau yng nghyswilt defnyddio'r Gymraeg. Bu i Fesur y Gymraeg sefydlu'r iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac mae'r Cynllun hwn yn cydnabod hyn. Mae Adran 113 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn pennu pryd yr ystyrir bod unigolyn yn amharu ar ryddid unigolyn arall i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae HMPPS wedi ymrwymo i hwyluso'r hawliau a'r rhyddid hyn ledled y sefydliad a pheidio ag ymyrryd â hawl unigolyn (yn cynnwys staff) i ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhywun arall. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn disodli'r canlynol:

- Cynllun y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Carcharorion (NOMS) 2013, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd ar y 23ain o Fai 2013; a
- Chynllun Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd ar y 12fed o Orffennaf 2011.

We manage public sector prisons, the contract for private prisons and oversee probation delivery in England and Wales, including the provision of community rehabilitation companies.

HMPPS is currently responsible for approximately 49,883⁴ members of staff (full time equivalent), 83,327⁵ prisoners (79,514 male, 3,813 female) and 255,264⁶ offenders in the community.

In line with the Welsh Language Act 1993 and subsequent Welsh Language (Wales) Measure 2011, Her Majesty's Prison and Probation Service (HMPPS) continues to adopt the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, it will treat the English and Welsh languages on a basis of equality; to continue our aim to deliver a high quality Welsh language service and, in keeping with the requirements of the Welsh Language Act 1993, to adopt the best possible practice with regard to the use of Welsh. The Welsh Language Measure established the Welsh language as an official language in Wales and this Scheme recognises this. Section 113 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 sets out when a person is taken to interfere with another's freedom to undertake a communication in Welsh. HMPPS is committed to facilitating these rights and freedoms across the organisation and not interfering with an individual's right (including staff) to use the Welsh language with someone else. This Welsh Language Scheme replaces the following:

- National Offender Management Service (NOMS) Scheme 2013, approved by the Commissioner on 23 May 2013; and
- The Wales Probation Trust Scheme, approved by the Commissioner on 12 July 2011.

This Scheme has been prepared in accordance with Section 21 of the Welsh Language Act 1993, by which, HMPPS will:

¹ Fel yr oedd ym mis Mawrth 2019

² Fel yr oedd ym mis Medi 2019

³ Fel yr oedd ym mis Mawrth 2019

⁴ As at March 2019

⁵ As at September 2019

⁶ As at March 2019

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn unol â hynny bydd HMPPS yn:

- *rhol sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg (y ceir manylion amdanyst ar y wefan)*
- *anfon y Cynllun arfaethedig at Gomisiynydd y Gymraeg cyn ei fabwysiadu;*
- *anfon datganiad ysgrifenedig at Gomisiynydd y Gymraeg, os nad yw HMPPS yn gweithredu'r newidiadau a awgrymir gan y Comisiynydd, yn nodi'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.*

Mae'r Cynllun hwn yn pennu sut bydd HMPPS yn cyflawni ei ymrwymiadau a chyfarwyddo ei staff wrth wneud hynny. Bydd Cydymffurfiaeth â'r Cynllun yn cael ei fonitro trwy gydol cyfnod y Cynllun, a bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd yn flynyddol.

Cyhoeddwyd Cynllun cyffredinol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ym mis Mehefin 2018. Mae Cynllun yr MoJ yn gynllun corfforaethol sy'n pennu'r fframwaith iaith Gymraeg cyffredinol ar gyfer yr adran. Adran Weinidogol yw'r MoJ, sydd wedi'i chefnogi gan bum Asiantaeth Weithredol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'n busnesau a'n gwasanaethau i'r cyhoedd: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS) Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) a'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA). Mae gan pob un o'r cyrff cyflawni hyn Gynllun Iaith Gymraeg ei hun. Gall lefel y gwasanaethau Cymraeg amrywio rhwng asiantaethau, yn ddibynnol ar lefel y cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn wedi'i fabwysiadu gan HMPPS a'r cyrff sy'n gweithredu o fewn HMPPS, a chymeradwywyd y cynllun gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y 10^{fed} o Fedi 2020.

2. Gwerthuso a'r Dadansoddiad o Gydraddoldeb

Wrth baratoi ar gyfer Cynllun 2020-23, cynhaliwyd gwerthusiad i asesu perfformiad yn erbyn egwyddorion sylfaenol y Cynllun blaenorol, ac ymgynghori ar ddatblygu'r Cynllun diwygiedig. Bu inni ymgynghori â charcharorion a staff a rhanddeiliaid eraill sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae

- *Have regard to any guidelines issued by the Welsh Language Commissioner (as detailed on the website)*
- *Send the proposed Scheme to the Welsh Language Commissioner prior to adopting it;*
- *If HMPPS does not give effect to the amendments suggested by the Welsh Language Commissioner, send a written statement of the reasons for not doing so to the Commissioner.*

This Scheme sets out how HMPPS will meet its obligations and acts as the instruction to staff in doing so. Compliance with the Scheme will be monitored throughout the life of the Scheme, with progress reports submitted to the Commissioner annually.

The overarching Ministry of Justice (MoJ) Scheme was published in June 2018. The MoJ Scheme is a corporate Scheme that sets the overall Welsh language framework for the department. The MoJ is a ministerial department, supported by five Executive Agencies responsible for the delivery of the majority of our business and services to the public: Her Majesty's Courts and Tribunals Service (HMCTS), Her Majesty's Prison and Probation Service (HMPPS), the Legal Aid Agency (LAA), the Office of the Public Guardian (OPG), and the Criminal Injuries Compensation Authority (CICA). Each of these delivery bodies has their own Welsh Language Scheme. The level of Welsh language services vary between agencies depending on the level of direct contact with the public in Wales. This Scheme has been adopted by HMPPS and the bodies operating within it, and was approved by the Welsh Language Commissioner on 10th September 2020.

2. Evaluation and Equality Analysis

In preparation of the 2020-2023 Scheme, an evaluation was carried out to assess performance against the underlying principles of the former Scheme, and consult on development of the refreshed Scheme. We consulted Welsh speaking prisoners, staff and other stakeholders. Their input

eu cyfraniad wedi darparu gwybodaeth am agweddau a meysydd hollbwysig lle mae angen gwneud rhagor o waith. Ceir manylion llawn y gwerthusiad a'r ymgynghoriad yn Adroddiad Blynnyddol Cynllun Iaith Gymraeg 16-17 HMPPS.

Roedd y staff a'r carcharorion a gyfrannodd i'r ymgynghoriad yn frwd iawn ynglŷn â'u treftadaeth Gymraeg ac nid yn unig y gallu i gael mynediad at ddeunydd neu wasanaethau yn y Gymraeg. Roedd cymdeithasau Cymraeg yn cael eu defnyddio fel ffordd i sicrhau bod unigolion Cymraeg eu hiaith yn cael rhywfaint o amser i gymdeithasu a sgrwsio yn Gymraeg. Fel rhan o'r broses o roi'r Cynllun hwn ar waith, byddwn yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo â rhannu syniadau.

Mae Dadansoddiad Cydraddoldeb yn ganolog i ddatblygiad y Cynllun newydd i sicrhau bod y Cynllun yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Y prif ganfyddiad oedd bod angen mabwysiadu dull wedi'i dargedu ar gyfer garcharorion sy'n fenywod, pobl ifanc a charcharorion categori A, gan nad oes carchardai ar gyfer y carfannau hynny yng Nghymru.

Mae'r gwerthusiad a'r Dadansoddiad Cydraddoldeb yn dangos, er gwaethaf cynnydd, bod yna ragor o waith i'w wneud i allu cyflawni cydraddoldeb llwyr ar gyfer y ddwy iaith o fewn y gwasanaethau carchardai a phrawf yng Nghymru.

3. Yr Adroddiad 'Cymraeg yn y Carchar'

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg yr adroddiad 'Cymraeg yn y Carchar'⁷. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gyda charcharorion, cyn-garcharorion, eu teuluoedd a staff yng Nghymru. Mi wnaeth yr adroddiad gynnig 17 o argymhellion - mae HMPPS wedi derbyn pob un ohonynt. Y prif feysydd sy'n cael sylw yw reciwtio, mynediad carcharorion at wasanaethau Cymraeg a diffyg darpariaeth i fenywod o Gymru a throseddwyr ifanc o Gymru, gan nad oes carchardai i'r grwpiau hyn yng Nghymru. Mae'r argymhellion yn cael eu trafod yn y Cynllun hwn.

Bydd yr ymateb i adroddiad y Comisiynydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun hwn ar

has provided information about critical aspects and areas where more work is required. Full details of the evaluation and consultation can be found in the HMPPS Welsh Language Scheme 16-17 Annual Report

The Welsh staff and prisoners that were consulted were passionate about their Welsh heritage; not just about being able to access material or services in Welsh. Welsh societies were used as a means to allow them some time to socialise and converse in Welsh. As part of the implementation of this Scheme, we will promote and help facilitate sharing of ideas.

The development of the new Scheme is underpinned by an Equality Analysis to ensure compliance with the Equality Act 2010. The main finding was the need for a targeted approach for female prisoners, young people and category A prisoners in the absence of those prisons in Wales.

The evaluation and the Equality Analysis indicate that despite progress, there remains more to do in order to fully achieve equality for English and Welsh languages in prison and probation services in Wales.

3. 'The Welsh Language in Prisons' Report

In December 2018, the Welsh Language Commissioner published The Welsh Language in Prisons' report⁸. The report is based on research conducted with prisoners, ex-prisoners, their families and staff in Wales. The report made 17 recommendations – all of which HMPPS has accepted. The main areas of focus are around recruitment, prisoner access to Welsh services and the lack of provision for Welsh women and young offenders, in the absence of those prisons in Wales. The recommendations are covered by this Scheme.

The response to the Commissioner's report is published alongside this Scheme on 10th

⁷ <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20181130%20DG%20C%20Cymraeg%20yn%20y%20carchar%20-%20terfynol.pdf>

⁸ <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Publications%20List/20181130%20DG%20S%20The%20Welsh%20language%20in%20prisons%20-%20final.pdf>

10^{fed} o Fedi 2020. Byddwn yn adrodd am gynnydd i'r Comisiynydd yn flynyddol, fel rhan o'r broses adrodd blynnyddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun hwn. Ar gais y Comisiynydd, byddwn yn adrodd ar wahân am roi'r argymhellion ar waith, yn flynyddol. Gweler ATODIAD B.

4. Rhoi'r Cynllun ar Waith

Mae'r Cynllun hwn yn effeithio ar garcharorion, troseddwyr yn y gymuned ac ymwelwyr sy'n cael unrhyw fath o wasanaeth gan HMPPS yng Nghymru. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yng nghydestun cyflogi staff HMPPS y tu allan i gwmpas y Cynllun hwn. Byddwn yn cefnogi staff yng Nghymru sydd eisiau gwella eu sgiliau Cymraeg a byddwn yn ymdrechu i gofnodi sgiliau ieithyddol staff yng Nghymru, gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gennym sgiliau Cymraeg digonol o fewn ein gweithlu i fodloni anghenion y cyhoedd a'r rhai hynny yn ein gofal sy'n siarad Cymraeg, yng Nghymru. **Pan gyfeirir at aelodau o'r cyhoedd, mae hyn yn cynnwys carcharorion a throseddwyr ar brawf.** Ein bwriad yw sicrhau bod y Saesneg a'r Gymraeg yn cael eu trin yn gyfartal yng Nghymru ac yn achos carcharorion yn Lloegr sy'n siaradwyr Cymraeg.

Datblygu Polisi

Mae HMPPS yn rhoi proses ddadansoddi cydraddoldeb ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Defnyddir y broses fel rhan o ddatblygu ac adolygu polisi a phrojectau. Mae'r Gymraeg wedi'i hychwanegu at y broses hon. Golygai hyn fod rhaid i unrhyw bolisi neu brosiect newydd ystyried y Gymraeg. Mae tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant HMPPS yn gyfrifol am sicrhau ansawdd unrhyw ddadansoddiad cydraddoldeb wrth ddatblygu polisi. Mae'r rôl hon yn golygu os na wneir ystyriaethau digonol yngylch y Gymraeg, na fydd y polisi yn cael ei gymeradwyo a rhaid datblygu'r dadansoddiad ymhellach cyn iddo gael ei gymeradwyo.

September 2020. We will report on progress to the Commissioner annually, as part of the annual reporting process associated with this Scheme. On request of the Commissioner, we will report separately on the implementation of the recommendations, each year. These are provided at ANNEX B.

4. Applying the Scheme

This Scheme affects prisoners, offenders in the community and visitors who receive services from HMPPS in Wales. The use of Welsh in the context of employment of HMPPS' staff is outside the scope of this Scheme. We will support staff in Wales who want to improve Welsh language skills and we will make efforts to record the linguistic skills of staff in Wales as this will help to ensure we have sufficient Welsh language skills to accommodate members of the public and those in our care who speak Welsh, in Wales. **When we refer to members of the public, this includes prisoners and offenders on probation.** It is our intention to ensure equal treatment of English and Welsh in Wales and for Welsh speaking prisoners in England.

Policy Development

HMPPS applies the process of equality analysis to ensure it is compliant with the Equality Act 2010 and the Public Sector Equality Duty. The process is used as part of the development and review of policy or projects. Welsh language has been added to this process. This means that any new or revised policy or project must make Welsh language considerations. The HMPPS Diversity & Inclusion Team are responsible for quality assuring equality analysis in policy development. This gate keeping role means that if the Welsh language considerations are inadequate, the policy will not be approved and the analysis must be further developed until it is approved.

5. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru

Egwyddorion Cyflawni

Mae HMPPS wedi adnabod yr egwyddorion canlynol i roi'r cynllun hwn ar waith. Y nod yw creu gwasanaeth carchardai a phrawf yng Nghymru sy'n:

- Croesawu ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg
- Rhoi'r dewis i droseddwyr siarad Cymraeg
- Croesawu ceisiadau Cymraeg am swyddi
- Darparu gwasanaethau Cymraeg i aelodau o'r cyhoedd yn deg ac yn gyson

Bydd rhaid i Unedau Cyflawni Lleol ac Adeiladau Cymeradwy y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ddangos eu bod yn glynus at yr egwyddorion hyn, a bydd hyn yn cael ei fonitro.

Bydd HMPPS yn darparu'r gwasanaethau sylfaenol canlynol i aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys carcharorion a throseddwyr sydd ar brawf) yng Nghymru.

Bydd HMPPS yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, trwy:

5. Promoting the use of Welsh language in Wales

Delivery Principles

HMPSS has identified the following principles for delivery of this scheme. These are to create a prison and probation service in Wales which:

- Makes Welsh speaking visitors welcome
- Gives offenders the option of using Welsh
- Welcomes job applications in the Welsh Language
- Provides services to members of the public in Welsh fairly and consistently

Prisons and Probation Local Delivery Units and Approved Premises will need to demonstrate that they adhere to these principles, and this will be monitored.

HMPPS will provide the following services as standard to members of the public (including prisoners and offenders on probation) in Wales.

HMPPS will promote Welsh language services in public facing services in Wales, by:

- Sefydlu amgylchedd dwyieithog yng Nghymru ym mhob maes sy'n ymwneud â'r cyhoedd, gydag arwyddion yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd arwyddion dwyieithog yn cael eu gosod pan fydd angen arwyddion newydd⁹.
- Gofyn i'r holl garcharorion newydd sy'n cyrraedd ai'r Gymraeg yw eu dewis iaith.
- Holi'r holl garcharorion newydd sy'n cyrraedd am eu gallu i siarad Cymraeg.
- Cymryd y cyfle cyntaf i ofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a yw'n well ganddynt siarad Cymraeg.
- Cofnodi dewis iaith unigolion ar systemau rheoli data y gwasanaeth carchardai a phrawf.
- Darparu ar gyfer ceisiadau am unrhyw ddeunydd yn Gymraeg lle gwyddys mai Cymraeg yw'r dewis iaith a sicrhau bod gan ein safleoedd adnoddau digonol i ddelio â'r ceisiadau hyn. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i gael gafaol ar siaradwr Cymraeg i sgwrsio, ac os nad yw'n bosibl trefnu hynny'n gyflym, sicrhau gwasanaethau cyfieithu ar unwaith.
- Adolygu'r stoc leol o gyfryngau a llenyddiaeth a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion o ran y Gymraeg.
- Cynnig sgyrsiau neu gyflwyniadau i'r cyhoedd yn y Gymraeg yn unol â dymuniadau'r sefydliad neu'r grŵp perthnasol.
- Parhau i ddarparu fersiwn Cymraeg o'r Holiadur Hunanasesu OASys i'w llenwi yn y Gymraeg
- Darparu cortynnau gwddf a/neu fathodynnau i garcharorion, sy'n dangos eu dewis i gyfathrebu'n Gymraeg.
- Rhoi'r cyfle i garcharorion sy'n cyflawni eu dedfrydau ddatblygu eu sgiliau iaith Cymraeg.
- Ymateb yn Gymraeg pan geir gohebiaeth yn y Gymraeg a defnyddio brandio dwyieithog, gan sicrhau bod amseroedd ymateb yr un fath ni waeth a yw'r ohebiaeth trwy gyfrwng Saesneg neu'r Gymraeg.
- Creating a bilingual environment in Wales in all public facing areas, with signage in Welsh and English. Signs will be replaced with bilingual versions when they are due to be replaced¹⁰.
- Asking prisoners on reception if they have a Welsh language preference.
- Ask all offenders on reception their Welsh language ability.
- Asking service users at the first opportunity if they have a preference for speaking Welsh.
- Recording language preference on prison and probation data management systems.
- Accommodating requests for any material in Welsh where a preference for Welsh is known and ensuring that our sites are sufficiently equipped to manage these requests, including the means to seek a Welsh speaker to converse; and where this is not swiftly available, secure translation services without delay.
- Reviewing local media and literature stock to ensure it meets local Welsh language need.
- Offering public facing talks or presentations in Welsh according to the wishes of the receiving organisation or group.
- Continuing to provide the OASys Self-Assessment Questionnaire in Welsh for completion in Welsh Providing prisoners with lanyards and/or badges that show their preference to communicate in Welsh.
- Giving prisoners serving their sentences in Wales, the opportunity to develop their Welsh language skills.
- Responding in Welsh where correspondence is received in Welsh and using bilingual branding, ensuring that the response times are the same whether the correspondence is conducted in English or in Welsh;
- Using bilingual branding on all official stationery.
- Initiating all correspondence in Wales in Welsh or bilingually, including personal correspondence where language preference is known.
- Using bilingual greetings in our public facing spaces in Wales (over the phone and in person) and giving visitors the

⁹ Uned Iaith Gymraeg GLITEM yn unig dylai gyfieithu arwyddion

¹⁰ Only the HMCTS Welsh Language Unit should be used to translate signs.

- Defnyddio brandio dwyieithog ar yr holl ddeunydd ysgrifennu swyddogol.
- Cychwyn unrhyw ohebiaeth yng Nghymru yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn cynnwys gohebiaeth bersonol lle bo'r dewis iaith yn hysbys.
- Defnyddio cyfarchion dwyieithog wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru (dros y ffôn a wyneb yn wyneb) a rhoi cyfle i ymwelwyr siarad Cymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y safle ar gyfer ymwelydd, gwneir ymdrechion i ddod o hyd i un. Gellir defnyddio'r Uned Iaith Gymraeg neu wasanaethau cyfieithu dan gcontract i hwyluso cyfathrebu os bydd angen. Fel arall, gall yr unigolyn siarad Saesneg gyda ni neu ysgrifennu atom yn y Gymraeg.
- Lle bo peiriant negeseuon yn cael ei ddefnyddio i gymryd galwadau gan y cyhoedd ac mae rhifau ffôn yn cael eu hysbysebu yng Nghymru, rhaid recordio negeseuon dwyieithog.
- Darparu ffurflenni cwyno yn y Gymraeg a'u gwneud yn hygrych i garcharorion, troseddwyr ar brawf ac ymwelwyr y carchardai.
- Sicrhau bod DIRFS (Ffurflenni Adrodd am Ddigwyddiadau Gwahaniaethu) ar gael yn Gymraeg yn y carchardai.
- Sicrhau bod llyfrau a chylchgronau Cymraeg ar gael yng nghanolffannau ymwelwyr y carchardai yng Nghymru, gan gynnwys deunydd darllen i blant.
- Lle bo technoleg ar gael, darparu technoleg yn y Gymraeg i garcharorion un ai o fewn yr ystafelloedd neu ar y lanfa. Lle nad oed technoleg ar gael, sicrhau bod hysbysebion a ffurflenni ar gael yn ddwyieithog.
- Hysbysebu'r holl swyddi gwag yn ddwyieithog. Mae hyn yn berthnasol i swydd staff parhaol a swyddi staff dros dro trwy asiantaethau (gweler tudalen 16 - 'Darparwyr Trydydd Parti').
- Asesu pob swydd a hysbysebir, gan bennu a yw sgiliau iaith Cymraeg yn hanfodol ai peidio
- Rhedeg ymgyrchoedd reciwtio yn ddwyieithog; gan roi'r dewis i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob lefel o'n prosesau reciwtio a gwneud pob ymdrech i ymateb i geisiadau dilynol.

opportunity to converse in Welsh if they wish to Welsh speaking callers should be offered the opportunity to have their call returned by a Welsh speaker if no one is available at the time. Where a Welsh speaker is not available on site for a visitor, efforts will be made to find one. The Welsh Language Unit or contracted translation services can be used to facilitate dialogue if necessary. Alternatively, the individual can engage in dialogue in English or write to us in Welsh.

- Where public facing answerphones are in use and the numbers are advertised in Wales, record bilingual messages.
- Making complaint forms available in Welsh and accessible to prisoners, offenders on probation and visitors to prisons.
- Ensure DIRFs (Discrimination Incident Referral Forms) are available in Welsh in prisons.
- Ensuring that visitors centres in Welsh prisons have Welsh books and magazines including material for children.
- Where technology is available, providing in-room or landing technology for prisoners in Welsh. Where technology is not available, ensuring that notices and forms are available bilingually.
- Advertising all job vacancies bilingually. This applies to permanent staff posts and temporary staff posts via agencies (see page 16 – 'Third Party Providers').
- Assessing whether each advertised post has an essential language need
- Running recruitment campaigns bilingually; giving the option of accessing all stages of our recruitment processes in Welsh and making every effort to accommodate subsequent requests.
- Continuing to have Welsh language as a desirable skill in all Wales based posts and specifying where it is an essential skill.
- Ensuring that products provided for the public such as leaflets, documents and information packs are available in both Welsh and English or in a bilingual format, including those which are produced by a third party..
- Ensuring that personal documents such as court reports and sentence plans are translated into Welsh where this is the service user's preference.

- Parhau i nodi sgiliau iaith Cymraeg fel sgil dymunol ar gyfer bob swydd sydd wedi'i lleoli yng Nghymru, a nodi'n glir lle bo'n sgil hanfodol.
- Sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd (fel taflenni, dogfennau a phecynnau gwybodaeth) ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg a/neu mewn fformat dwyieithog, yn cynnwys y rhai hynny a gynhyrchrif gan drydydd parti.
- Sicrhau bod dogfennau personol fel adroddiadau llys a chynlluniau dedfryd yn cael eu cyfeithu i'r Gymraeg os mai'r Gymraeg yw dewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.
- Sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg neu mewn fformat dwyieithog, gan annog ein darparwyr trydydd parti i wneud hynny hefyd
- Ymdrechu i sicrhau - wrth drefnu cyfarfodydd yng Nghymru sy'n ymwneud â'r cyhoedd - bod darpariaeth Gymraeg ar gael lle bo'r angen (a lle bo'n ymarferol bosib) i sicrhau y gall pawb gael mynediad at ddigwyddiadau yn yr iaith o'u dewis.
- Sicrhau bod ein gwaith a'n gweithgareddau sy'n deillio o ofynion a mentrau Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan fo'r angen;
- Enwebu Pencampwyr Cymraeg ym mhob un o swyddfeydd HMPPS yng Nghymru i hyrwyddo'r cynllun ymysg staff.
- Ensuring that all publications are available in both Welsh and English or in a bilingual format and are published simultaneously, and encouraging our third party providers to do the same
- Making efforts to ensure that when arranging meetings in Wales involving the public, Welsh is accessible where necessary (and possible in considering the practical arrangements), to ensure that everyone can access events in the language of their choice.
- Ensuring that our work and our activities which derive from the Welsh Government's requirements and initiatives, are conducted bilingually as required;
- Nominating Welsh language Champions in all HMPPS office locations in Wales, to help promote the scheme amongst staff.

Bydd HMPPS yn dathlu diwylliant Cymru yn eu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, trwy:

- Dathlu gwyliau cenedlaethol Cymru.
- Cynnal dosbarthiadau Cymraeg.
- Cefnogi darparu cymdeithasau neu grwpiau Cymraeg i annog y rhai hynny sydd yn ein gofal i gyfathrebu yn y Gymraeg.
- Hwyluso'r broses o rannu arferion da a galluogi eraill i ail-greu syniadau, lle mae galw lleol am

We will embrace the Welsh culture in public facing services in Wales, by:

- Celebrating Welsh national days.
- Running Welsh language classes.
- Supporting the provision of Welsh societies or groups to encourage those in our care to communicate in Welsh.
- Facilitating sharing of good practice to enable others to replicate ideas, where there is a local appetite for this, to raise

hynny, i godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth Gymraeg a'i gwella.

Gall carcharorion gyfathrebu gyda'i gilydd a chysylltiadau allanol yn y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Byddwn yn sicrhau bod staff a charcharorion yn ymwybodol o hyn. Mae hyn yn amodol ar gyfngiadau penodol o fewn y Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol a byddwn yn cymryd camau i esbonio'r senarios hyn yn glir.

6. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn Lloegr¹¹

a) Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn Lloegr

Nid oes yna ofyniad, naill ai yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 ynteu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddarparu cyfieithiadau neu wasanaethau eraill yn Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth yn Lloegr. Fodd bynnag, mae HMPPS yn benderfynol o fynd ymhellach na'i gyfrifoldebau statudol a darparu gwasanaethau Cymraeg ble bynnag y bydd hynny'n bosibl, yn arbennig pan na ellir lleoli defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.

Ni waeth lle maent wedi'u lleoli, rhaid gofyn i'r holl garcharorion a throseddwyr beth yw eu dewis iaith cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn parhau i ymdrechu i leoli carcharorion o Gymru yng Nghymru lle bo'n ymarferol bosib. Pan nad ydym yn gallu gwneud hynny, neu pan fod gofyn trosglwyddo unigolyn i garchar i gyflawni gofyniad penodol o'i ddedfryd, bydd cyfieithiadau ar gael i'r rhai hynny sy'n gofyn amdanynt a sydd wedi datgan mai Cymraeg yw eu dewis iaith. Bydd hyn yn ôl disgrifiwn y carchar yn seiliedig ar yr hyn sy'n rhesymol ac yn ymarferol bosib.¹³ Ceir arweiniad ar gyfieithiadau yn ATODIAD B.

Byddwn yn hwyluso'r broses o rannu arferion da rhwng Cymru a Lloegr, i godi ymwybyddiaeth ac i wella safon y ddarpariaeth Gymraeg yn Lloegr.

Gall carcharorion gyfathrebu â'i gilydd a chyda cysylltiadau allanol yn y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Byddwn yn sicrhau bod staff a

awareness and to improve the standard of Welsh language provision.

Prisoners can communicate with each other and with external contacts in Welsh if they wish. We will make sure that staff and prisoners are aware of this. This is subject to specific limitations within the National Security Framework, and we will take steps to clearly explain these scenarios.

6. Promoting the use of Welsh language in England¹²

a) Prisons & Probation in England

There is no requirement, either in the 1993 Welsh Language Act or in Welsh Language (Wales) Measure 2011 to provide translations or other services in Welsh for service users in England. However, HMPPS is determined to go further than its statutory obligations and to provide services in Welsh wherever possible, particularly where Welsh speaking service users cannot be accommodated in Wales.

All prisoners and offenders, regardless of location, must be asked their language preference at the earliest opportunity. We will continue to make efforts to locate Welsh prisoners in Wales where practicable. Where we are not able to do so or where an individual is required to transfer to a prison to carry out a particular requirement of their sentence, translations will be made available for those who request them and have declared a preference for Welsh. This will be at the prison's discretion, based on what is reasonable and achievable.¹⁴ Guidance on translations can be found at ANNEX B.

We will facilitate sharing of good practice between England and Wales, to raise awareness and to improve the standard of Welsh language provision in England.

Prisoners can communicate with each other and with external contacts in Welsh if they wish. We

¹¹ Mae rho'r Cynllun ar waith yn Lloegr yn wirfoddol, ac mae'n mynd tu hwnt i ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

¹² The application to English prisons is voluntary and is outside the requirements of the Welsh Language Act 1993.

¹³ Bydd rhaid i'r Llywodraethwr benderfynu a yw'r cais yn rhesymol ac yn ymarferol bosib yn seiliedig ar gost, amser a'r angen. Rhaid ystyried unrhyw ofyniad i unigolyn symud yn seiliedig ar yr angen i ddilyn rhan o'i gynllun dedfrydu yn Lloegr, os nad yw'n bosib gwneud hyn yng Nghymru. Ni ellir cyflawnhau gwrrthod cais ar y sail fod y carchar yn gallu siarad Saesneg.

¹⁴ The Governor will need to decide if the request is reasonable and achievable based on cost, time and need. This must take into account any requirement for an individual to move based on the need to carry out part of their sentence plan in England, if it is not available in Wales. Ability to speak English is not a justification for refusal.

charcharorion yn ymwybodol o hyn. Mae hyn yn amodol ar gyfngiadau penodol o fewn y Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol a byddwn yn cymryd camau i esbonio'r senarios hyn yn glir.

will make sure that staff and prisoners are aware of this. This is subject to specific limitations within the National Security Framework, and we will take steps to clearly explain these scenarios.

Yr Ystad Fenywod, yr Ystad Ddiogelwch Lefel

Uwch Hir Dymor a'r Canolfannau Hyfforddi Diogel

Mae'r dadansoddiad cydraddoldeb o'r Cynllun wedi adnabod effaith wahaniaethol ar fenywod a phobl ifanc (14-18 mlwydd oed) dan ofal HMPPS, gan nad oes modd eu cadw yn y ddalfa yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Adroddiad y Comisiynydd 'Cymraeg yn y Carchar' hefyd wedi tynnu sylw at hyn. Mae gweithgareddau ymgysylltu HMPPS wedi dangos nad yw carcharorion yn Lloegr sy'n fenywod ac sy'n gallu siarad Cymraeg yn ymwybodol o'r ddarpariaeth Gymraeg, a'u bod dan yr argraff nad oedd yn berthnasol iddyn nhw. Hefyd, gan nad oes carchar Diogelwch Uchel / Hir Dymor yng Nghymru, rhaid cadw carcharorion Categori A yn Lloegr.

Fel y nodir uchod, gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru yn unig a gwmpasir gan ofynion statudol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fodd bynnag, trwy'r Cynllun hwn, bydd HMPPS yn sicrhau bod carcharorion sy'n fenywod, carcharorion sy'n bobl ifanc a charcharorion Categori A yn cael y cyfre i nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith. Byddwn yn gweithio â'r rhannau hyn o ystad y carchardai i ddatblygu a gwella gwasanaethau i garcharorion sy'n siarad Cymraeg fel eu bod:

- yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- yn cael cyfre i ddatgan eu dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.
- yn gallu cael mynediad at wasanaeth Cymraeg ar ôl iddynt ddatgan dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg, fel y gwêl y carchar yn dda, yn seiliedig ar yr hyn sy'n rhesymol ac yn ymarferol bosib.

Women's Estate, Long Term & High Security

Estate and Secure Training Centres

The equality analysis of the Scheme has identified a differential impact on women, young people (aged 14-18) in HMPPS's care, because they cannot currently be in custody in Wales. The Commissioner's Report 'The Welsh Language in Prisons' has also highlighted this. HMPPS' engagement with Welsh women in English prisons indicated that they were unaware of the Welsh language provision and did not think it applied to them. In addition, the absence of a High Security / Long term prison in Wales means that Category A prisoners can only be held in England.

As set out above, the statutory requirements of the Welsh Language Act 1993 only apply to provision of services in Wales. However, through this Scheme HMPPS will ensure that female prisoners, young people and Category A prisoners are given the opportunity to state a preference for Welsh language. We will work with these parts of the prison estate to develop and enhance services for Welsh speaking prisoners so that they are:

- aware of their right to use Welsh.
- provided with an opportunity to declare their preference for using Welsh.
- able to access a Welsh language service where a preference is stated at the prison's discretion, based on what is reasonable and achievable.

Byddwn yn hwyluso'r broses o rannu arferion da rhwng Cymru a Lloegr, i godi ymwybyddiaeth ac i wella safon y ddarpariaeth Gymraeg yn Lloegr.

Gall carcharorion gyfathrebu â'i gilydd a cysylltiadau allanol yn y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Byddwn yn sicrhau bod staff a charcharorion yn ymwybodol o hyn. Mae hyn yn amodol ar gyfyngiadau penodol o fewn y Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol a byddwn yn cymryd camau i esbonio'r senarios hyn yn glir.

7. Hyfforddi a Pharatoi Staff

Byddwn yn hyfforddi ac yn paratoi staff i hyrwyddo a darparu'r gwasanaethau hyn trwy:

- Darparu dolenni i ddogfennau canllaw y Comisiynydd a'n Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ar ein mewnrwyd.
- Cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg a'n hadroddiadau blynnyddol yn ddwyieithog ar wefan Gov.uk a mewnrwyd HMPPS.
- Sicrhau bod y trefniadau mewn lle i gael cyfieithiadau cywir gan Uned Iaith Gymraeg GLITEM yn amserol a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol.
- Sicrhau bod holl frandio HMPPS ar gael i'n staff ar y fewnrwyd, un ai mewn fformat Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.
- Rhannu pecyn o ddogfennau sydd wedi'u cyfieithu ar y fewnrwyd i'r holl staff ei ddefnyddio ledled HMPPS. Bydd yr holl ddogfennau sydd newydd gael eu cyfieithu, rhai lleol neu rai cenedlaethol, yn cael eu llwytho ar y gwefan.
- Darparu ffordd i staff roi adborth neu gyflwyno sylwadau ar y Cynllun trwy anfon neges at flwch negeseuon pwrrpasol.
- Cefnogi'r broses o ddatblygu systemau sy'n galluogi cadw cofnod o sgiliau iaith Cymraeg staff.
- Darparu cortynnau gwddf (*lanyards*) a / neu bathodynnau i staff os ydynt eisiau datgan eu

We will facilitate sharing of good practice between England and Wales, to raise awareness and to improve the standard of Welsh language provision in England.

Prisoners can communicate with each other and with external contacts in Welsh if they wish. We will make sure that staff and prisoners are aware of this. This is subject to specific limitations within the National Security Framework, and we will take steps to clearly explain these scenarios.

7. Equipping Staff

We will equip staff in England and Wales to promote and provide these services by:

- Providing a link to the Commissioner's guidance documents and our refreshed Welsh Language Scheme on our intranet.
- Publishing our Welsh Language Scheme and annual reports bilingually on the Gov.uk website and HMPPS intranet.
- Providing the means to obtain accurate and timely translations through the HMCTS Welsh Language Unit and ensure that services are adequately promoted.
- Ensuring all HMPPS branding is made available to staff on our intranet in either Welsh, English or bilingual format.
- Making a suite of translated documents available on the intranet for all staff to use across HMPPPS. All newly translated documents, local or national will be uploaded onto the site.
- Providing staff with the means of submitting feedback and enquiries on the Scheme through a dedicated functional mailbox.
- Supporting development of systems to enable recording of staff Welsh speaking skills.
- Providing staff with lanyards and / or badges should they wish to declare their ability (be it fluent or

- gallu (boed yn rhugl neu'n ddysgw) i gyfathrebu yn Gymraeg.
- Bod yn eglur ynghylch hawl carcharorion i siarad Cymraeg gyda'i gilydd a chysylltiadau allanol, yn cynnwys nodi'n glir lle bo cyfyngiadau ar hyn o fewn y Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol.
- a learner) to communicate through the Welsh language.
- Providing clarity on prisoners' freedom to use Welsh with each other and external contacts, including making it clear where there are limitations on this within the National Security Framework.

8. Cynllun Gweithredu

Mae'n ofynnol i unedau o fewn HMPPS, gan gynnwys carchardai, Unedau Cyflawni Lleoli ac Adeiladau Cymeradwy, roi dystiolaeth o sut maent yn rhoi'r camau gweithredu a ddarperir yn y cynllun isod ar waith. Bydd HMPPS yn darparu, yn cefnogi ac yn annog rhannu arferion da.

8. Action Plan

Business units within HMPPS, including prisons, Local Delivery Units and Approved Premises, are required to evidence how they implement the actions provided in the plan below. HMPPS will provide, support and foster sharing of best practice.

| | Cam gweithredu | Adeg rhoi'r cam gweithredu ar waith (Medi 2020) | Diwedd Blwyddyn 1 (Medi 2021) | Diwedd Blwyddyn 2 (2022) | Diwedd Blwyddyn 3 (2023) |
|---|--|---|--|--|--|
| 1 | Byddwn yn hyrwyddo Cynllun Iaith diwygiedig HMPPS a chynnwys staff, carcharorion a throseddwyr | Cyhoeddi'r Cynllun ar Gov.uk ac ar fewnrwyd HMPPS. Rhannu taflenni ymwybyddiaeth gyda staff a carcharorion | Cyhoeddi crynodeb o'r adroddiad blynnyddol a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod ar y fewnrwyd. | Cyhoeddi crynodeb o'r adroddiad blynnyddol a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod ar y fewnrwyd. | Cyhoeddi adroddiad blynnyddol, gan gynnwys crynodeb o Gynllun 2020-2023 ar y fewnrwyd. |
| 2 | Byddwn yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg ar y cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun. Byddwn yn ystyried yn benodol unrhyw ryngweithio â phobl yng Nghymru, nifer y cyfieithiadau a wneir a chydymffurfiaeth unrhyw drydydd parti â'n Cynllun. | Amherthnasol | Cyhoeddi fersiwn dwyieithog o'r Adroddiad Blynnyddol yn Medi 2021 | Cyhoeddi fersiwn dwyieithog o'r Adroddiad Blynnyddol yn Medi 2022 | Cyhoeddi fersiwn dwyieithog o'r Adroddiad Blynnyddol yn Medi 2023 |
| 3 | Byddwn yn archwilio sut all dewisiadau i siarad Cymraeg gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar | Byddwn yn ymchwilio i sut y gellir ystyried dewis carcharor i siarad Cymraeg yn y broses leoli. | Datblygu cynigion ac ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r ffordd y gwneir penderfyniadau. | Rhoi'r newidiadau ar waith. | Adolygu canlyniadau'r broses leoli. |

| | | | | | |
|---|--|---|--|--|--|
| | leoli carcharorion, lle bo'n ymarferol bosib. | | | | |
| 4 | Byddwn yn cefnogi'r Ystad Fenywod i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac yn rhoi cyfle i'r holl fenywod sydd yn y ddalfa ddatgan mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith | Byddwn yn cynnal ymarfer i bennu'r nifer o fenywod sy'n dymuno siarad Cymraeg a phenderfynu sut y gallwn ddatblygu gwell gwasanaeth. | Adolygu'r data sydd ar gael am fenywod sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt | Adolygu'r data sydd ar gael am fenywod sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt | Adolygu'r data sydd ar gael am fenywod sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt |
| 5 | Byddwn yn cefnogi'r Gwasanaeth Carchardai i Bobl Ifanc i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac yn rhoi cyfle i'r holl bobl ifanc sydd yn y ddalfa ddatgan mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith. | Byddwn yn cynnal ymarfer i bennu'r nifer o bobl ifanc sy'n dymuno siarad Cymraeg a phenderfynu sut y gallwn ddatblygu gwell gwasanaeth. | Adolygu'r data sydd ar gael am bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt | Adolygu'r data sydd ar gael am bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt | Adolygu'r data sydd ar gael am bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt |
| 6 | Byddwn yn cefnogi'r Ystad Ddiogelwch Lefel Uwch Hir Dymor | Byddwn yn cynnal ymarfer i bennu'r nifer o | Adolygu'r data sydd ar gael am garcharorion | Adolygu'r data sydd ar gael am garcharorion | Adolygu'r data sydd ar gael am garcharorion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac yn rhoi cyfle i'r holl garcharorion Categori A ddatgan mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith. | garcharorion Categori A sy'n dymuno siarad Cymraeg a phenderfynu sut y gallwn ddatblygu gwell gwasanaeth. | Categori A sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt | Categori A sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt | Categori A sy'n siaradwyr Cymraeg Cytuno ar y camau gweithredu Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt |
| 7 | Byddwn yn darparu arweiniad i staff yng Nghymru ar ateb galwadau yn ddwyieithog | Sicrhau bod y gofyniad i ateb galwadau yn ddwyieithog yn eglur yn y Cynllun. | Asesu pa mor effeithiol yw'r arweiniad | Asesu i ba raddau y mae galwadau'n cael eu hateb yn ddwyieithog yng Nghymru | Asesu i ba raddau y mae galwadau'n cael eu hateb yn ddwyieithog yng Nghymru |
| 8 | Byddwn yn ailbennu pa ddata sydd ei angen am garcharorion a throseddwyr, gan gynnwys unrhyw fodd i gael gwybodaeth am unigolion y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt a'u gallu i siarad, darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg. | Sefydlu pa ddata sydd ei angen a sicrhau bod gennym y systemau mewn lle i'w gofnodi | Darparu data yn yr adroddiad blynnyddol | Darparu data yn yr adroddiad blynnyddol | Adolygu effeithiolwydd y data a gasglwyd a'i addasu fel sydd angen ar gyfer Cynllun 2023-2026. |
| 9 | Byddwn yn pennu pa ddata sydd ei angen am staff i sicrhau bod | Amherthnasol | Pennu sgiliau iaith Gymraeg staff a sefydlu beth | Addasu gweithdrefnau gofynion swyddi | Adolygu effeithiolwydd a gwneud newidiadau |

| | | | | | |
|----|---|---|--|--|--|
| | gennym nifer digonol o staff yng Nghymru sy'n siaradwyr Cymraeg er mwyn diwallu anghenion carcharorion a throseddwyr ar bawf sy'n siaradwyr Cymraeg | | ddylai'r gymhareb o ran carcharorion sy'n siaradwyr Cymraeg a staff sy'n siaradwyr Cymraeg fod. | gwag er mwyn caniatáu i reolwyr swyddi gwag nodi a yw'r iaith Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol, ar gyfer pob swydd wag | i Gynllun 2023-2026 |
| 10 | Byddwn yn adolygu ein prosesau reciwtio, yn enwedig yng Nghymru, i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i reciwtio siaradwyr Cymraeg ar y lefel gywir | Adolygu'r arferion presennol, y buddion a'r cyfyngiadau | Rhannu esiamplau o arfer da. | Gweithredu newidiadau i'r gweithdrefnau reciwtio | Adolygu effeithiolwyd a gwneud newidiadau i Gynllun 2023-2026 |
| 11 | Byddwn yn parhau i ymgynghori â charcharorion o ran eu hanghenion a'u dewisiadau yng nghyswilt y Gymraeg | Byddwn yn rhoi cyfle i garcharorion a throseddwyr roi adborth ar gynllun 2020-2023. | Cynnal grwpiau ffocws gyda charcharorion a throseddwyr, gan gynnwys menywod a throseddwyr ifanc, i asesu lefelau bodlonrwydd gwasanaethau iaith Gymraeg. | Cynnal grwpiau ffocws gyda charcharorion a throseddwyr, gan gynnwys menywod a throseddwyr ifanc, i asesu lefelau bodlonrwydd gwasanaethau iaith Gymraeg. | Cynnal grwpiau ffocws gyda charcharorion a throseddwyr, gan gynnwys menywod a throseddwyr ifanc. Ymgynghori ymhellach i asesu bodlonrwydd gyda gwasanaethau iaith Gymraeg. Ymgynghori ar ddatblygiad Cynllun 2023-2026 |
| 12 | Byddwn yn annog sefydlu a rhedeg cymdeithasau a fforymau Cymraeg | Cadw llygad ar ba mor weladwy yw'r cymdeithasau a'r fforymau hyn | Cadw llygad ar ba mor weladwy yw'r cymdeithasau a'r fforymau hyn | Adolygu profiadau defnyddwyr sy'n siaradwyr Cymraeg. | Adolygu profiadau defnyddwyr sy'n siaradwyr Cymraeg. |

| | | | | | |
|----|--|---|---|---|--|
| | yng Nghymru, ac ymdrechu i sicrhau eu bod yn weithredol. | | | | |
